

# **Craffu ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-2020**

Tachwedd 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Craffu ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-2020**

Tachwedd 2018



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AC**

Plaid Cymru  
Gogledd Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Neil Hamilton AC**

UKIP Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**

Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Jane Hutt AC**

Llafur Cymru  
Bro Morgannwg



**Rhun ap Iorwerth AC**

Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Nick Ramsay AC**

Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy



**David Rees AC**

Llafur Cymru  
Aberafan

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Steffan Lewis AC**

Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru

## Cynnwys

<b>Argymhellion a Casgliadau .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....</b>	<b>7</b>
<b>2. Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) .....</b>	<b>9</b>
Safbwynt y Pwyllgor.....	11
<b>3. Amcangyfrif cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2019-2020.....</b>	<b>12</b>
Newidiadau cyffredinol i Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2019-2020 .....	12
Newidiadau mewn llwyth achosion a'r gwahaniaeth o ran costau ar gyfer elfennau o'r llwyth achosion.....	12
Safbwynt y Pwyllgor.....	15
<b>4. Staff.....</b>	<b>17</b>
Swyddogion gwella a swydd newydd ar gyfer Swyddog Dysgu a Datblygu .....	17
Pensiynau .....	20
Safbwynt y Pwyllgor.....	21
<b>5. Technoleg .....</b>	<b>23</b>
Safbwynt y Pwyllgor.....	25
<b>Atodiad A: Amcangyfrif am y Flwyddyn Ariannol 2019/20 .....</b>	<b>26</b>

---



## Argymhellion a Casgliadau

**Argymhelliad 1.** O gofio'r cyni parhaus yn y sector cyhoeddus a'r pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r adnoddau sydd gan yr Ombwdsmon ganolbwyntio ar ei swyddogaethau statudol ac, yn fwy penodol, ar drafod cwynion ac ymchwilio iddynt..... Tudalen 16

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth gyflwyno ei Amcangyfrifon yn y dyfodol, y dylai'r Ombwdsman esbonio'n glir ar ba sail y ceisir yr adnoddau, gan gysylltu'r cyflwyniad cyllidebol â'i gynllun a'i amcanion strategol. Dylai nodi a mesur y newidiadau ers y flwyddyn flaenorol, yn ogystal ag esbonio'r sail resymegol lle nad oes newid yn yr adnoddau a geisir na'r dadansoddiad o'r cyfanswm ar draws y prif faterion..... Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ombwdsmon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y newid i reolau Trysorlys EM mewn perthynas â phrydlesi ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2019-20..... Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Bwriad polisi Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel y'i drafftwyd yw sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ombwdsman yn ystyried ei gynnig i benodi Swyddog Dysgu a Datblygu yn sgil gweithredu'r pwerau newydd os bydd y Cynulliad yn pasio'r Bil..... Tudalen 22

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth gyflwyno ei Amcangyfrifon yn y dyfodol, fod yr Ombwdsmon yn mesur effaith newidiadau arfaethedig i'w gostau staffio, megis cost aelodau newydd o staff neu'r rhai sydd i'w recriwtio i gyflenwi ar gyfer absenoldebau mamolaeth neu fabwysiadu ac ar gyfer setliadau cyflog. Dylai hyn nodi a geisir yr adnoddau cysylltiedig ar sail reolaidd neu afreolaidd. Pan fo costau'n debygol o barhau y tu hwnt i'r flwyddyn y gwneir y cyflwyniad cyllidebol ar ei chyfer, dylid gwneud hyn yn glir a dylai'r effaith ar amcangyfrifon yn y dyfodol gael ei mesur..... Tudalen 22

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth yn Amcangyfrif 2019-20 am y costau tebygol a fydd yn sail i gyllideb atodol os bydd y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol, ac yn nodi y bydd angen codi'r costau hyn er mwyn adlewyrchu cyflogau a phrisiau presennol. .... Tudalen 11

**Casgliad 2.** Wrth drafod yr Amcangyfrif cychwynnol, roedd yn amlwg bod yr Ombwdsmon wedi bod yn seilio ei gyfrifiadau ar gyfer ei gyllidebau ar grant bloc y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r dull hwn yn synnu'r Pwyllgor, ond mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y ceir anawsterau wrth amcangyfrif y grant bloc ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar arian y sector cyhoeddus, a pheidio â thybio y bydd cynnydd mewn cyllid, ni waeth beth yw'r newid yn y grant bloc. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manylion yn y ddogfen ddiwygiedig, sef Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20, ac mae o'r farn bod yr Amcangyfrif yn dderbyniol. Yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau. .... Tudalen 15

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod sylwadau'r Ombwdsmon mewn perthynas â chais y Pwyllgor i leihau ei Amcangyfrif a'r effaith y gall hyn ei chael ar ei swyddfa. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cysylltu cyllid cyrff a ariennir yn uniongyrchol â Grant Bloc Cymru yn peri problem, yn enwedig yn sgil trethi datganoledig, y fframwaith cyllidol a sut y mae datganoli cyllidol yn effeithio ar y Grant Bloc. Fel y cyfryw, bydd y Pwyllgor yn trafod ymhellach a yw hwn yn fodd priodol o hyd o gysoni cyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Tudalen 15



# 1. Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn llunio Amcangyfrif (yr Amcangyfrif) ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005<sup>1</sup>, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>2</sup>. Mae gofyn i'r Amcangyfrif bennu pa adnoddau sy'n ofynnol er mwyn i'r Ombwdsmon gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig) sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Cyfunol Cymru.<sup>3</sup>

2. Mae Rheol Sefydlog 20.23 yn nodi:

“Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i'r pwyllgor cyfrifol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag.”<sup>4</sup>

3. Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am adrodd ar yr Amcangyfrif hwn. Mae Rheol Sefydlog 20.24 yn nodi:

“Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol ystyried yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Cynulliad heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddo.”<sup>5</sup>

4. Cyflwynodd yr Ombwdsmon Amcangyfrif cychwynnol 2019-20<sup>6</sup> i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar 26 Medi 2018. Trafododd y Pwyllgor yr Amcangyfrif cychwynnol hwn ar 11 Hydref 2018 a chymerodd dystiolaeth gan y canlynol:

- Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

---

<sup>1</sup> [Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus \(Cymru\) 2005](#)

<sup>2</sup> [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#)

<sup>3</sup> [Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus \(Cymru\) 2005](#) (Atodlen 1, paragraff 9(6))

<sup>4</sup> Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [SO 20.23](#), Hydref 2018

<sup>5</sup> Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [SO 20.24](#), Hydref 2018

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [FIN\(5\)-22-18 P1: Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20](#), 11 Hydref 2018

---

- Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau; a
- David Meaden, Cyfrifydd Ariannol.

**5.** Ar ôl y sesiwn dystiolaeth hon, gofynnodd y Pwyllgor i'r Ombwdsmon adolygu ei Amcangyfrif cychwynnol, yn benodol mewn perthynas â chynnwys costau posibl mewn perthynas â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (pennod 2) a chyda'r bwriad o leihau'r cyllid y gofynnir amdano o 3.82 y cant i 1.67 y cant (pennod 3). Gellir gweld gohebiaeth mewn perthynas â'r Amcangyfrif ar dudalen we'r Pwyllgor.

**6.** Yn dilyn hynny, ar 30 Hydref, ailgyflwynodd yr Ombwdsmon ei Amcangyfrif ar gyfer 2019-20 a cheir hwn yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 2. Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

7. Ym mis Hydref 2017, cyflwynodd y Pwyllgor hwn i'r Cynulliad y **Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)** (y Bil). Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn pasio drwy'r Cynulliad ac yng nghyfnod 2.

8. Nododd Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19 £340,000 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd a gynhwysir yn y Bil. Roedd y costau hyn yn gyson â'r amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar ôl deddfu fel y nodir yn y **Memorandwm Esboniadol** a luniwyd gan y Pwyllgor i gyd-fynd â'r Bil. Nododd Amcangyfrif 2018-19 nad oedd costau mewn perthynas â'r Bil yn rhan o'r cyflwyniad ffurfiol, ond nododd Amcangyfrif 2018-19:

“Yn sgil y pwerau ychwanegol ym Mil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, yn yr Atodiad mae'r cyflwyniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, ynghyd â syniad o'r gofynion o ran y gyllideb am flwyddyn lawn pan fydd y ddeddfwriaeth ar waith. Er mwyn bod yn gyflawn y mae hyn, ac nid yw'n golygu unrhyw dybiaeth y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau yn ei ffurf bresennol neu o gwbl. Mae'r costau yn y golofn derfynol yn cynnwys costau staff, costau swyddfa cysylltiedig a chostau TG sy'n deillio o'r pwerau ychwanegol i ystyried cwynion ar lafar, i gynnal ymchwiliadau ar fy liwt fy hun ac i gyflwyno swyddogaeth safonau cwynion. (Nid oes costau wedi'u cynnwys yng nghyswllt yr estyniad arfaethedig i'r pwerau i ymchwilio i gwynion iechyd sy'n cynnwys elfen o driniaeth iechyd breifat. Disgwylir y gellir delio â'r rhain drwy'r adnoddau presennol sydd ar gael i'r swyddfa.)”<sup>7</sup>

9. Mae Amcangyfrif cychwynnol 2019-20 yn nodi'r cyllid sy'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf 2005. Fodd bynnag, ni nododd yr amcangyfrif cychwynnol amcangyfrif o'r costau pe bai'r Bil yn mynd rhagddo. Mae'r amcangyfrif cychwynnol yn nodi'r canlynol:

“... yn ystod 2017/18, gwelwyd cynnydd yng nghyswllt cam 1 y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig sy'n llywodraethu fy ngwaith. Roeddwn yn falch o weld bod Cyfarfod Cyflawn Cynulliad Cymru wedi pleidleisio 47/1 o blaid egwyddorion Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ac rwyf yn gobeithio y bydd modd gwneud rhagor

---

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Cyllid, **FIN(5)24-17 P1: Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018-19**, 11 Hydref 2017

o gynnydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. ... Os caiff deddfwriaeth newydd yn llywodraethu gwaith yr Ombwdsmon ei chyhoeddi, bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon Cyllideb atodol, gan nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gosodiad cyllideb ffurfiol hwn.”<sup>8</sup>

**10.** Gofynnwyd i'r Ombwdsmon pam na chafodd costau posibl mewn perthynas â'r Bil eu cynnwys yn yr Amcangyfrif cychwynol. Dywedodd yr Ombwdsmon y canlynol:

“Y rheswm pam nad wyf wedi rhoi ffigurau llawn i fewn ar gyfer blwyddyn nesaf ydy oherwydd nid wyf eisiau rhagfarnu pethau. Nid wyf yn siŵr yn union pa bryd fydd y pwerau'n cael eu pasio gan y Senedd, na ychwaith pa bryd yn ystod y flwyddyn fydd y rheini'n dod i rym. Felly, rwy'n meddwl y bydd hi'n well inni roi cyllideb atodol i mewn pan ddaw'n glir i ni a ydym ni'n sôn am gyllideb ar gyfer hanner y flwyddyn nesaf neu dri chwarter neu'r flwyddyn lawn.”<sup>9</sup>

**11.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor<sup>10</sup> at yr Ombwdsmon yn manylu ar gred y Pwyllgor y dylid cynnwys costau mewn perthynas â'r Bil yn yr Amcangyfrif. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf, pan fo'n hysbys bod cyllideb atodol yn bosibl, y byddai'r Aelodau'n disgwyl i amcangyfrif o'r costau gael ei gynnwys, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw.

**12.** Ymatebodd yr Ombwdsmon i gais y Pwyllgor, gan ddweud, oherwydd nad oedd wedi cael gwybod y dyddiad tebygol ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, nad oedd yn hyderus y byddai'r pwerau newydd ar gael i'w swyddfa am flwyddyn gyfan<sup>11</sup>. Fodd bynnag, mewn llythyr arall at y Pwyllgor,<sup>12</sup> diwygiodd yr Ombwdsmon ei Amcangyfrif i gynnwys costau posibl y gellid eu cyflwyno fel cyllideb atodol pe bai'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

**13.** Cyflwynwyd yr Amcangyfrif diwygiedig yn manylu ar gostau posibl mewn perthynas â'r Bil, a nododd:

---

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Cyllid, **FIN(5)-22-18 P1: Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20**, 11 Hydref 2018

<sup>9</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 125]**, 11 Hydref 2018

<sup>10</sup> **Llythyr gan y Cadeirydd Dros Dro at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, 17 Hydref 2018

<sup>11</sup> **Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Cadeirydd**, 24 Hydref 2018

<sup>12</sup> **Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Cadeirydd**, 30 Hydref 2018

---

“Mae’r costau amcangyfrifedig pwerau newydd yn adlewyrchu’r rhai yn y Memorandwm Esboniadol. Mae’r ffigyrau at brisiau Ebrill 2017. Os cymeradwyir pwerau newydd, bydd gwerth unrhyw osodiad Cyllideb Atodol yn adlewyrchu’r cyflogau a phrisiau cyfredol ac amseriad cychwyn y pwerau newydd.”<sup>13</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**14.** Mae’r Pwyllgor yn credu ei bod yn glir, os bydd y Bil yn mynd rhagddo, y byddai’r Ombwdsman yn gyfrifol am y costau a fyddai’n deillio o’r pwerau newydd yn ystod y flwyddyn y mae’r Amcangyfrif hwn yn ymwneud â hi, sef 2019-20. Fel y cyfryw, mae’n amlwg y dylai’r costau tebygol fod wedi’u cynnwys yn yr Amcangyfrif cychwynol.

**15.** Gan fod yr Ombwdsman wedi cynnwys y costau tebygol yn Amcangyfrif 2018-19, mae’n syndod bod yr Ombwdsmon wedi dewis peidio â’u cynnwys yn Amcangyfrif cychwynol 2019-20.

**16.** Ymhellach, Bil Pwyllgor ydyw, a gynigir gan y Pwyllgor Cyllid. Wrth drafod yr Amcangyfrif hwn, mae angen i ni sicrhau bod yr holl wybodaeth ariannol wedi’i chynnwys lle y bo modd er mwyn sicrhau’r tryloywder mwyaf ac arfer ariannol da.

**Casgliad 1.** Mae’r Pwyllgor yn nodi’r wybodaeth yn Amcangyfrif 2019-20 am y costau tebygol a fydd yn sail i gyllideb atodol os bydd y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol, ac yn nodi y bydd angen codi’r costau hyn er mwyn adlewyrchu cyflogau a phrisiau presennol.

---

<sup>13</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

---

### 3. Amcangyfrif cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2019-2020

#### Newidiadau cyffredinol i Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2019-2020

---

**18.** Roedd yr Amcangyfrif cychwynnol ar gyfer 2019-20 yn gofyn am gynnydd o £171,000 yng nghyfanswm y gwariant a reolir, o £4,480,000 yn 2018-19 i £4,651,000 yn 2019-20, sef cynnydd o 3.8 y cant. Y cynnydd cyfatebol yng nghyllideb yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol oedd £232,000 neu 5.5 y cant. Fodd bynnag, o ran yr arian parod net sy'n ofynnol, roedd yr Ombwdsmon yn ceisio £4,591,000 ar gyfer 2019-20 i ddechrau, sef £181,000 yn fwy na'r swm cyfatebol ar gyfer 2018-19.

**19.** Mae'r Amcangyfrif cychwynnol yn nodi bod y "cynydd mewn adnoddau a geisir amdano (3.8%) yn llai na'r newid o 3.9% o Floc Cymru (TME)".

**20.** Gofynnwyd i'r Ombwdsmon sut y cyfrifodd y newid ym Mloc Cymru. Dywedodd Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor:

"We don't base those figures on the estimate of what the block is going to change. We always calculate it in arrears, so we compare the annual budget motion, for example, in 2018-19, with the annual budget motion of 2017-18, and we've consistently done that over the last 10 years. So, in the last two years, the block moved from £17.3 billion to £18 billion of total managed expenditure, which is where we get the 3.9 per cent. So, we consistently use the December budget motion change of what's actually happened, rather than estimate or guess what the block is going to change. We don't have any access to know what's going to happen to the block next year."<sup>14</sup>

Newidiadau mewn llwyth achosion a'r gwahaniaeth o ran costau ar gyfer elfennau o'r llwyth achosion

---

**21.** Yn yr adroddiad ar graffu ar Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19, dywedodd y Pwyllgor:

"O ystyried y pwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ombwdsmon yn dangos yn glir y rhesymau dros unrhyw geisiadau yn y dyfodol am adnoddau

---

<sup>14</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 132]**, 11 Hydref 2018

ychwanegol, yn cynnwys y gwahaniaeth o ran cost ar gyfer elfennau o'i lwyth achosion a'r pwysau ariannol cysylltiedig.”<sup>15</sup>

**22.** Mae Amcangyfrif cychwynnol yr Ombwdsmon ar gyfer 2019-20 yn esbonio'r cynnydd yn yr adnoddau a geisir, gan nodi bod yr Ombwdsman yn ceisio “blaenoriaethu nawdd ar gyfer staff er mwyn cynorthwyo i reoli” ei lwyth achosion cynyddol, y mae'n tybio y bydd yn cynyddu rhwng 5 y cant a 12 y cant yn ystod 2019-20<sup>16</sup>.

**23.** Yn gyson â'r dull yn y blynyddoedd blaenorol, mae Amcangyfrif yr Ombwdsmon yn nodi gwybodaeth mewn perthynas â'r tueddiadau yn ei lwyth achosion a'r gostyngiad yn y gost unedol i'w swyddfa, sy'n adlewyrchu'r holl elfennau o'i waith (ymholiadau, cwynion cyrff cyhoeddus a chwynion Cod Ymddygiad). Esboniodd Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau'r Ombwdsmon:

“... the budget submission isn't simply a mathematical exercise ....what we do is look at the projection of workload and the impact of that on our resources and, in particular, on our staff and on our IT systems. So, the budget reflects what we think are the staffing resources that we need to manage that workload, which does increase every year, but that increase does fluctuate ....The estimate reflects our best estimate.”<sup>17</sup>

**24.** O ran cost yr elfennau gwahanol o lwyth gwaith yr Ombwdsmon, esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau:

“... what we have done is look at the different types of cases, the balance of enquiries to complaints, the types of complaints that we are typically getting, and the balance of health complaints compared with local government complaints, and tried to come up with a view based on the differential time that is involved in each of those types of cases and, consequently, the difference in costs of dealing with them.”<sup>18</sup>

---

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **CR-LD11272**, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19, 16 Tachwedd 2017

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Cyllid, **FIN(5)-22-18 P1: Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20**, 11 Hydref 2018

<sup>17</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraffau 137-138]**, 11 Hydref 2018

<sup>18</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 144]**, 11 Hydref 2018

---



**25.** Gan nodi bod ffyrdd gwahanol o edrych ar gostau, nad oedd dau achos yr un peth a chan bwysleisio'r angen i fod yn gymesur, nododd y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau y prif faterion o ran y costau unedol:

“... dealing with an enquiry will typically cost about £114 in terms of unit costs; with complaints, it depends on the type, but typically a complaint will cost £1,600, but that obviously varies a lot from one that is dealt with very quickly, which would be below £1,600, to a long and complex health complaint with professional advice and a full report in the public interest, which might be up to maybe £13,000 or £14,000. So, there is a range. We've done quite a lot of work to try and analyse those costs. They inform the budget submission, but it isn't simply a mathematical calculation of health complaints multiplied by £14,000 or £9,000 equals—. It is based on an assessment of how that case load can be accommodated within our office and what implications that has for our staffing and resources.”<sup>19</sup>

**26.** Yn ei Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2019-20, mae'r Ombwdsman wedi cyfyngu ar y cynnydd yng nghyfanswm y gwariant a reolir (cyn ystyried costau pwerau newydd a nodir yn y Bil) i 1.67 y cant: cynnydd o £75,000 (o £4,480,000 yn 2018-19 i £4,555,000 yn 2019-20). Mae'r Ombwdsmon yn nodi bod hyn yn sylweddol is na'r cynnydd ym Mloc Cymru<sup>20</sup> ac y “byddai'n arwain at ostyngiad yn y gyfran o gyllideb Bloc Cymru a ddyrennir i wasanaethau'r Ombwdsmon”.<sup>21</sup> Ceisiodd yr Ombwdsmon hefyd gynnydd cyfatebol yn y gofyniad arian net heblaw am gostau pwerau newydd yn y Bil: £4,485,000 ar gyfer 2019-20, sef £75,000 yn fwy na'r swm cyfatebol ar gyfer 2018-19, sef £4,410,000.

**27.** Mae'r Ombwdsmon yn nodi y dylid edrych ar yr Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2019-20 “yng nghyd-destun pwysau chwyddiant cyflogau a phrisiau arwyddocaol, a thwf parhaus mewn llwyth achosion, yn benodol mewn cwynion mwy cymhleth, o 8% i 12% bob blwyddyn”. Mae'n dweud:

“Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, mae graddau'r camweinyddu a'r lefel o anghyfiawnder personol yn ffactorau sy'n cael eu hystyried. O ganlyniad i bwysau ariannu a thyfiant parhaus mewn llwyth achosion, efallai y bydd angen 'codi'r bar' fel mai dim ond

---

<sup>19</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 147]**, 11 Hydref 2018

<sup>20</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

<sup>21</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1



cwynion â lefelau mwy arwyddocaol o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth a lefelau mwy arwyddocaol o anghyfiawnder personol sy'n cael eu datblygu. Bydd y swyddfa yn ceisio rheoli'r llwyth achosion yn y ffordd hon er mwyn osgoi creu ôl-groniad cynyddol o achosion."<sup>22</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**28.** Er bod yr Ombwdsmon yn nodi'r dybiaeth a oedd yn sail i'w Amcangyfrif cychwynnol a'i Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2019-20, nid yw'n rhoi gwybodaeth i esbonio'r cysylltiad rhwng y cynnydd yn y llwyth achosion a'r gyllideb nac i wahaniaethu rhwng y costau ar gyfer yr elfennau perthnasol o'i lwyth gwaith.

**29.** Wrth gydnabod nad yw llunio'r cyflwyniad cyllidebol yn gyfrifiad mathemategol ar sail cost unedol, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig bod yr Amcangyfrif yn dangos yn glir y rhesymau dros geisiadau am adnoddau, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng cost yr elfennau o'i lwyth achosion a'r mathau gwahanol o gŵyn.

**Casgliad 2.** Wrth drafod yr Amcangyfrif cychwynnol, roedd yn amlwg bod yr Ombwdsmon wedi bod yn seilio ei gyfrifiadau ar gyfer ei gyllidebau ar grant bloc y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r dull hwn yn synnu'r Pwyllgor, ond mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y ceir anawsterau wrth amcangyfrif y grant bloc ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar arian y sector cyhoeddus, a pheidio â thybio y bydd cynnydd mewn cyllid, ni waeth beth yw'r newid yn y grant bloc. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manylion yn y ddogfen ddiwygiedig, sef Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20, ac mae o'r farn bod yr Amcangyfrif yn dderbyniol. Yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod sylwadau'r Ombwdsmon mewn perthynas â chais y Pwyllgor i leihau ei Amcangyfrif a'r effaith y gall hyn ei chael ar ei swyddfa. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cysylltu cyllid cyrff a ariennir yn uniongyrchol â Grant Bloc Cymru yn peri problem, yn enwedig yn sgil trethi datganoledig, y fframwaith cyllidol a sut y mae datganoli cyllidol yn

---

<sup>22</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

effeithio ar y Grant Bloc. Fel y cyfryw, bydd y Pwyllgor yn trafod ymhellach a yw hwn yn fodd priodol o hyd o gysoni cyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

**Argymhelliad 1.** O gofio'r cyni parhaus yn y sector cyhoeddus a'r pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r adnoddau sydd gan yr Ombwdsmon ganolbwyntio ar ei swyddogaethau statudol ac, yn fwy penodol, ar drafod cwynion ac ymchwilio iddynt.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth gyflwyno ei Amcangyfrifon yn y dyfodol, y dylai'r Ombwdsman esbonio'n glir ar ba sail y ceisir yr adnoddau, gan gysylltu'r cyflwyniad cyllidebol â'i gynllun a'i amcanion strategol. Dylai nodi a mesur y newidiadau ers y flwyddyn flaenorol, yn ogystal ag esbonio'r sail resymegol lle nad oes newid yn yr adnoddau a geisir na'r dadansoddiad o'r cyfanswm ar draws y prif faterion.

## 4. Staff

**30.** Ar y dechrau, roedd amcangyfrif yr Ombwdsmon yn ceisio £3.4 miliwn ar gyfer costau staff ar gyfer 2019-20, o gymharu â £2.9 miliwn yr aed iddo gan ei swyddfa yn 2017-18; sef cynnydd o £0.5 miliwn. Dywedodd Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon y canlynol am y cynnydd hwn:

“... probably represents something like eight staff more, 2 per cent pay awards in each year, pension increases and increments. For example, the pay award and increment effect in this estimate would be something like £80,000.”<sup>23</sup>

**31.** Roedd cyllideb yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19 ar gyfer cyflogau a chostau cysylltiedig yn adlewyrchu cynnydd o £173,000 ers y flwyddyn flaenorol. Wrth graffu ar Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19, nododd y Pwyllgor y gofynnwyd am tua hanner y cynnydd hwn (£86,000) i dalu am gostau cyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth.<sup>24</sup>

**32.** Gofynnwyd i'r Ombwdsman am y cynnydd disgwylidig mewn costau staff ar gyfer 2019-20. Dywedodd Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor y byddai staff eraill yn cymryd absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu yn 2019-20, felly bydd o leiaf hanner y rhain yn parhau ond y daethpwyd â rhai gwasanaethau, megis cyfieithu Cymraeg, yn fewnol, felly byddai'r gost bellach yn cael ei thalu fel costau staff yn hytrach na chostau eraill.<sup>25</sup>

---

### Swyddogion gwella a swydd newydd ar gyfer Swyddog Dysgu a Datblygu

---

**33.** Yn 2015-16, nododd yr Ombwdsmon y byddai swydd “swyddogion gwella” yn cael ei chyflwyno. Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, mae'r Ombwdsmon yn nodi, er mai prif elfen y swydd o hyd yw ymchwilio i gwynion, fod eu “rôl fel swyddogion gwella yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn rhai cyrff penodol o fewn fy awdurdodaeth a gweithredu fel arweinwyr pwnc yng nghyswllt meysydd sy'n parhau i effeithio ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus”.<sup>26</sup>

---

<sup>23</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 166]**, 11 Hydref 2018

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **CR-LD11272**, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19, 16 Tachwedd 2017.

<sup>25</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraffau 173-177]**, 11 Hydref 2018

<sup>26</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **AGR-LD11676**, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Cyfrifon Blynyddol A Chyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Mawrth 2018, 17 Gorffennaf 2018

---

**34.** Wrth graffu ar Amcangyfrif 2018-19, gofynnodd y Pwyllgor i'r Ombwdsman am effaith swyddogion gwella a sut y maent yn sbarduno gwelliant. Dywedodd:

“It’s early days, and what I hope our improvement and investigation officers can do is assist in a better culture of complaint handling and responsiveness from what I call some of our best customers—so, those bodies, perhaps five or six of them, that in the past have accounted for perhaps 25 or 30 per cent of the overall universe of complaints that I receive.”<sup>27</sup>

**35.** Yn ei adroddiad ar Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2018-19, croesawodd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed drwy gyflwyno swyddogion gwella, sydd wedi arwain at welliannau penodol i ddiwylliant trin cwynion rhai sefydliadau a gostyngiad yn nifer y cwynion.<sup>28</sup>

**36.** Yn yr Amcangyfrif, mae'r Ombwdsmon yn dweud bod y gwaith gwella wedi'i wneud gan nifer fach o staff ymchwilio a oedd yn treulio 15 i 20 y cant o'u hamser ar waith gwella, ond mae cynnydd mewn cwynion cymhleth wedi'i gwneud yn anodd cynnal y lefel gynlluniedig o waith gwella.<sup>29</sup> Mae'r Amcangyfrif cychwynnol yn nodi bwriad yr Ombwdsmon i benodi Swyddog Dysgu a Gwella ac yn cynnwys darpariaeth i ariannu'r swydd newydd hon.<sup>30</sup>

**37.** Mewn tystiolaeth, esboniodd yr Ombwdsmon rôl swyddogion gwella, yn benodol y rhai sy'n gweithio gyda byrddau iechyd:

“Their role is one day a week. What we’ve got is a cadre of improvement officers, the most experienced investigators that we have. Most of their jobs are still about investigating complaints, and our role is still very much about investigating complaints about public services, and we’re very clear about that.

I think there’s a lot more learning that could happen in the health boards across Wales, so their role is to really try and develop that culture of better complaint handling in those health boards through ensuring that the health boards, their staff, understand what good

---

<sup>27</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 32]**, 11 Hydref 2017

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **CR-LD11272**, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19, 16 Tachwedd 2017

<sup>29</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Cyllid, **FIN(5)-22-18 P1: Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20**, 11 Hydref 2018

complaint handling looks like, the way in which front-line staff should be empowered to deal with complaints effectively and soon, the way in which boards and leaders of health boards should be looking at complaints...So, I think it's really important that we see that there is adequate accountability and attention given to complaints, and due prominence within the different corporate cultures of those health boards as well.”<sup>31</sup>

**38.** Esboniodd yr Ombwdsmon y cynnig i greu swydd Swyddog Dysgu a Datblygu:

“... our proposal is to have a full-time learning and development officer to really ratchet up our activity in this area. I think that that could provide a number of benefits, not least, given that we're analysing our health complaints so much more now—. Twenty-five per cent of the health complaints that we receive are about complaint handling, which I find very, very surprising. Less than 5 per cent are about surgery. Less than 10 per cent are about waiting times. ... And I think, for a very modest investment, we could do a lot more to reduce not just the complaints coming to us but to improve the experience of taxpayers and health service users across Wales.”<sup>32</sup>

**39.** Wrth drafod yr achos dros gael Swyddog Dysgu a Datblygu, trafododd y Pwyllgor y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), y mae sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus a thrin cwynion yn un o'i fwriadau polisi. Nododd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, sydd yn y Memorandwm Esboniadol, oblygiadau ariannol y Bil. Mae hyn yn cynnwys cost staff ychwanegol ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a'r cynnig bod gan yr Ombwdsmon bŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau trin cwynion. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, bydd y pwerau hyn yn sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

**40.** Yn dilyn cais y Pwyllgor bod yr Ombwdsmon yn lleihau'r cynnydd yn ei gyllideb y gofynnir amdani, ailgyflwynodd yr Ombwdsmon ei Amcangyfrif. Nid oedd yr Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2019-20 yn cynnig penodi Swyddog Dysgu a Datblygu a nododd ymhellach:

“Yng nghyd-destun pwysau dealladwy i gyfyngu cyllideb yr OGCC, ni fydd yn bosibl i ymestyn gwaith gwella i gyrrff ychwanegol (fel yr

---

<sup>31</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraffau 189-190]**, 11 Hydref 2018

<sup>32</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 191]**, 11 Hydref 2018

argymhellwyd yn flaenrol gan y Pwyllgor Cyllid). Yn wir, bydd y gwaith gwella hwn yn cael ei raddio yn ôl, ond bydd yn ceisio canolbwyntio ar sefydliadau allweddol sy'n peri pryder.”<sup>33</sup>

## Pensiynau

---

**41.** Mae rhai o staff yr Ombwdsmon yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweinyddir y cynllun hwn gan Gyngor Caerdydd a nodwyd bod ganddo ddiffyg ers 2010-11. Nododd yr Amcangyfrif cychwynol ar gyfer 2019-20 i'r Ombwdsman gael gwared ar y diffyg ddiwedd mis Mawrth 2017 a dychwelwyd £292,000 i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod 2017-2018. Yn ystod ei waith craffu ar ei Amcangyfrif ar gyfer 2018-19, dywedodd yr Ombwdsman wrth y Pwyllgor ei fod wedi symud i gronfa risg isel neu heb risg yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gyda'i gyfran o asedau pensiwn wedi'i buddsoddi'n llawn mewn bondiau Llywodraeth. Dywedodd Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon y canlynol wrth y Pwyllgor:

“the actuary has made a statement in writing to say that he does not believe that a deficit will ever arise in the future. I guess there are no guarantees, but he has actually said that based on the decisions we've made. I think it was important to say, 'This has happened. There was a £1.6 million deficit a few years ago. How can we stop that happening again?' And we feel we've done just about everything we can to eliminate that risk.”<sup>34</sup>

**42.** Yn ei Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2019-20, mae'r Ombwdsmon yn nodi mai prisiad actiwaraid y Gronfa ddiwedd mis Mawrth 2018 oedd £1.5 miliwn. Fodd bynnag, mae'n nodi bod Adran Actiwari'r Llywodraeth wrthi'n cynnal prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil y mae rhai o'i staff eraill yn aelodau ohono. Byddai canlyniadau'r prisiad yn pennu cyfraniadau'r cyflogwr y bydd ei swyddfa yn eu talu i'r cynllun o 1 Ebrill 2019. Mae'r Ombwdsman yn nodi'r canlynol:

“Mae'n bosibl y gallai cyfraniadau'r OGCC gynyddu o gyfartaledd o 21% i gyfartaledd o 28%. Gallai'r cynydd hwn arwain at yr OGCC yn talu cyfraniadau ychwanegol o oeddeutu £180k. Ni adlewyrchir y cynydd hwn yn y ffigyrau a geir o fewn y ddogfen cyllideb hon.

---

<sup>33</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

<sup>34</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 144]**, 11 Hydref 2017

Byddwn yn adolygu'r goblygiadau o gynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr unwaith y bydd y cynydd yn hysbys. Os na ellir cymhwyso'r cynydd yn y gyllideb 2019-20, bydd cyllideb atodol yn cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20."<sup>35</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

- 43.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig y disgwylir i gostau staffio'r Ombwdsmon gynyddu yn y flwyddyn ariannol i ddod, yn dilyn y sicrwydd mai amgylchiadau penodol oedd yn gyfrifol am y cynnydd y llynedd. Yn 2018-19, y rheswm dros y cynnydd oedd cyfres benodol o amgylchiadau ac nid oedd yn gost reolaidd i swyddfa'r Ombwdsman wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol, ond mae'r Pwyllgor yn nodi mai costau rheolaidd sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y costau staffio ar gyfer 2019-20.
- 44.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Ombwdsmon roi rhagor o dryloywder yn ei gyflwyniad cyllidebol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion mewn perthynas â'r adnoddau a geisir, gan gynnwys esboniadau am newidiadau. Dylai'r rhain gael eu mesur a gwahaniaethu rhwng y cynnydd a geisir ar sail reolaidd ac afreolaidd.
- 45.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r Ombwdsmon am ragweld taith y Bil drwy'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r cynnig ar gyfer swyddog dysgu a datblygu yn cyd-fynd â'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer staff angenrheidiol ychwanegol os bydd y Bil yn mynd rhagddo yn y Cynulliad. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn falch bod Amcangyfrif diwygiedig yr Ombwdsmon wedi golygu na fydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- 46.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllideb atodol yn bosibil, mewn perthynas â newidiadau pensiwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Ombwdsman, ac yn deall y rheswm dros gynnwys y wybodaeth hon yn yr Amcangyfrif diwygiedig.
- 47.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y cododd y mater mewn perthynas â newidiadau pensiwn hefyd yn y cyflwyniadau cyllidebol ar gyfer 2019-20 gan Gomisiwn y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru. Cododd y cyrff hyn hefyd y posibilrwydd o gyllideb atodol yn deillio o newidiadau sydd i ddod i reolau cyfrifyddu Trysorlys EM. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesi gweithredu gael eu cydnabod fel asedau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ac yn destun dibrisiant, er mwyn

---

<sup>35</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

cynyddu tryloywder o ran rhwymedigaethau neilltuedig sefydliad. Mae'n debygol y bydd y newid yn weithredol o ddechrau blwyddyn ariannol 2019-20.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ombwdsmon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y newid i reolau Trysorlys EM mewn perthynas â phrydlesi ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2019-20.

**Argymhelliad 4.** Bwriad polisi Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel y'i drafftiodd yw sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ombwdsman yn styried ei gynrig i benodi Swyddog Dysgu a Datblygu yn sgil gweithredu'r pwerau newydd os bydd y Cynulliad yn pasio'r Bil.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth gyflwyno ei Amcangyfrifon yn y dyfodol, fod yr Ombwdsmon yn mesur effaith newidiadau arfaethedig i'w gostau staffio, megis cost aelodau newydd o staff neu'r rhai sydd i'w recriwtio i gyflenwi ar gyfer absenoldebau mamolaeth neu fabwysiadu ac ar gyfer setliadau cyflog. Dylai hyn nodi a geisir yr adnoddau cysylltiedig ar sail reolaidd neu afreolaidd. Pan fo costau'n debygol o barhau y tu hwnt i'r flwyddyn y gwneir y cyflwyniad cyllidebol ar ei chyfer, dylid gwneud hyn yn glir a dylai'r effaith ar amcangyfrifon yn y dyfodol gael ei mesur.



## 5. Technoleg

**48.** Yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2018-19, cynyddodd y dyraniad ar gyfer “Systemau cyfrifiadurol a chymorth” o £191,000 yn 2017-18 i £225,000 yn 2018-19. Esboniodd yr Amcangyfrif ar gyfer 2018-19 fod y £225,000 yn cynnwys cyllid ychwanegol i reoli'r broses o drosglwyddo cyflenwyr neu brosesau a chostau uwch amcangyfrifedig ar gyfer systemau a chymorth. Roedd hefyd yn cynnwys £25,000 i ddod â'r gwariant arfaethedig ar TG i oddeutu 5 y cant o'r cyllidebau ar gyfer adnoddau.

**49.** Ar ôl gwaith craffu ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2018-19, argymhellodd y Pwyllgor fod yr Ombwdsman yn creu rhaglen TGCh am 3-5 mlynedd i ddangos defnydd arfaethedig yr adnoddau ar gyfer TGCh yn 2018-19 ac, yn y dyfodol, y caiff y rhaglen ei hintegreiddio i mewn i waith cynllunio strategol ar gyfer ei swyddfa.<sup>36</sup>

**50.** Mae'r Amcangyfrif cychwynnol ar gyfer 2019-20 yn dadansoddi'r gyllideb refeniw dros brif faterion gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys llinell ar gyfer TG, sef £225,000 yn y gyllideb ar gyfer 2019-20: cynnydd o £69,000 o 2018-19, £156,000.

**51.** Mae'r Amcangyfrif hefyd yn nodi'r canlynol:

“Cafodd contractau gwybodaeth allweddol a thechnoleg cyfathrebu eu hail-dendro yn ystod 2017-18 ac mae gwefan newydd nawr ar waith. Yn dilyn tendro am system rheoli achosion, mae gwaith wedi ei drefnu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019 i ddarparu system rheoli achosion gwell, sy'n cefnogi gweithio heb bapur ac sy'n cefnogi'r dadansoddiad gwerthfawr o ddata cwynion. Yn ddiweddar, adolygiwyd saernïaeth peiriant y TG a bydd hyn yn cael ei ddiweddarau i ddarparu sefydlogrwydd gwell ac er mwyn ddiogelu ein system ar gyfer y dyfodol. Yn ychwanegol, yn dilyn digwyddiad sy'n effeithio dilyniant busnes, bydd rhwydwaith mewnol yn mynd i'r afael â phryderon cyfredol ynghylch amser adfer.”<sup>37</sup>

---

<sup>36</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **CR-LD11272**, Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19, 16 Tachwedd 2017

<sup>37</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

**52.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon fod argymhelliad blaenorol y Pwyllgor i lunio cynllun TGCh 3-5 mlynedd wedi'i weithredu,<sup>38</sup> ac ymhelaethodd ar y buddsoddiad mewn TGCh. Dywedodd:

“We can see the value in joint working when it comes to things like governance, so joint working and training when it comes to ensuring that the right type of audit and risk arrangements are available when it comes to cyber security. Fundamentally, with our expenditure here, though, I have to say we are not looking for efficiencies in that way. What I’m looking for is a cyber security level that means there are no payments requested from anywhere in bitcoin and also no fines that emanate from the Information Commissioner given GDPR and other developments there, so it’s safety first rather than looking for further savings.”<sup>39</sup>

**53.** Gofynnwyd i'r Ombwdsmon ymhelaethu ar sut y byddai'r buddsoddiad yn lliniaru risgiau diogelwch data. Dywedodd:

“What we’ve done is we’ve changed our IT support arrangements; ... we are in the process of implementing a complete change to our infrastructure that tries to boost that security to reflect the risk profile, to try and make our systems as robust against cyber security issues as they can be. ... there’s a lot of emphasis on making sure there are robust firewalls and filters and access controls.”<sup>40</sup>

**54.** Yn ei Amcangyfrif diwygiedig, diwygiodd yr Ombwdsmon y swm a geisir ar gyfer TG, ac eithrio'r gost sy'n ymwneud â'r Bil, i £180,000 (o £225,000 yn yr Amcangyfrif cychwynnol). Amlinellodd:

“Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid y llynedd, paratowyd cynllun Technoleg Gwybodaeth pum mlynedd. Caiff hyn ei adolygu i adlewyrchu gwariant gostyngol. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei reoli i leihau effaith, drwy ail-raglennu gwelliant a chyfnewid cyfarpar sydd wedi eu heneiddio, wrth geisio cynnal trefniadau diogelwch a gwydnwch cryf.”<sup>41</sup>

---

<sup>38</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 223]**, 11 Hydref 2018

<sup>39</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 225]**, 11 Hydref 2018

<sup>40</sup> Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [paragraff 228]**, 11 Hydref 2018

<sup>41</sup> Amcangyfrif Diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20, Atodiad 1

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**55.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod yr Ombwdsmon yn parhau i fuddsoddi yn y seilwaith TGCh ond mae'n cydnabod bod y cais i leihau ei wariant arfaethedig wedi golygu bod yr Ombwdsmon yn gofyn am lai o adnoddau ar gyfer TGCh yn 2019-20. Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn croesawu cadarnhad gan yr Ombwdsmon nad yw hyn wedi arwain at newidiadau i'r cynlluniau i gynnal trefniadau diogelwch a gwydnwch.

## Atodiad A: Amcangyfrif am y Flwyddyn Ariannol 2019/20



# Amcangyfrif am y Flwyddyn Ariannol 2019/20

ARLOESI • GWELLIANT • DYLANWADU

## Cynnwys

<b>Adolygiad yr Ombwdsmon o'r Flwyddyn</b> .....	2
<b>Cyflwyniad i'r gosodiad amcangyfrifon hwn</b> .....	5
<b>Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</b> .....	6
<b>Y Gwasanaeth Cwynion 2017/18</b> .....	7
<b>Llywodraethu Corfforaethol</b> .....	9
<b>Perfformiad Ariannol</b> .....	11
<b>Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd</b> .....	12
<b>Gweledigaeth, Cenhadaeth, Nodau Strategol OGCC</b> .....	13
<b>Gosodiad Cyllidebol</b> .....	14
<b>Atodiad</b> .....	15

## Adolygiad yr Ombwdsmon o'r Flwyddyn



Er bod gennym gyd-destun heriol o ran cwynion, rwyf yn falch o allu cyhoeddi bod cynnydd cadarnhaol wedi bod yng ngweithgarwch y swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyfeirio'n benodol at ein themâu strategol ar gyfer y tair blynedd, sef arloesi, gwella a dylanwadu, ym mlwyddyn olaf y cynllun corfforaethol hwn.

O ran *arloesi* mae'r swyddfa wedi gwneud cynnydd pellach mewn perthynas â dadansoddi data, diogelu data a seiberddiogelwch, ac y mae wedi buddsoddi adnoddau sylweddol er mwyn adnewyddu ein system rheoli gwaith achos a'i gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â datblygu gwefan a mewnrwyd newydd.

Mae'r Seinfyrddau rydym wedi'u sefydlu'n ddiweddar wedi cael eu rhoi ar waith eleni, ac wedi darparu gwybodaeth werthfawr o safbwynt darparwyr gofal iechyd a defnyddwyr gwasanaethau. Hefyd, rydym wedi sefydlu seinfwrdd llywodraeth leol a wnaeth gyfarfod am y tro cyntaf.

Mae nifer y cwynion ynghylch iechyd sy'n dod i'r swyddfa yn dal yn destun pryder. Eleni, rydym wedi bod yn falch o weld gostyngiad o 2% nghyfanswm y cwynion, ond mae'r cwynion am fyrddau iechyd wedi cynyddu 11%. Bu gostyngiad o 10% yn nifer y cwynion am lywodraeth leol eto eleni.

Mae perfformiad y rhan fwyaf o gyrff y mae fy Swyddogion *Gwella* wedi bod yn gweithio gyda nhw wedi rhoi rheswm i mi wenu. Roeddwn yn falch iawn o weld gostyngiad yn groes i'r duedd gyffredinol ym maes iechyd ar gyfer Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Chwm Taf. Fodd bynnag, rwy'n bryderus am y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am Fyrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan, a byddaf a'm staff yn rhoi sylw ychwanegol i'r meysydd hyn.

Mae'r pwysau parhaus ar y swyddfa o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cwynion ynghylch iechyd wedi bod yn straen enfawr, gan arwain at ostyngiad o 11% yn nifer yr achosion a gafodd eu cau

yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cwynion am iechyd fel arfer yn fwy cymhleth ac mae angen ceisio cyngor clinigol a chysylltu â nifer o ymgynghorwyr, a all arwain at broses ymchwilio hwy.

Fodd bynnag, roedd yn bleser gweld bod nifer yr achosion o gamweinyddu a methiant y gwasanaeth wedi lleihau yn ystod y flwyddyn, gyda 56% o'r cwynion a gafodd eu hymchwilio yn cael eu cadarnhau, o gymharu â 61% yn 2016/17. Hefyd, dim ond un corff gwella, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a brofodd gynnydd yn nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau.

Mae datrys cwynion yn gyflym a setliadau gwirfoddol yn dal yn rhan bwysig o ddarparu cyfiawnder gweinyddol, sydd bellach yn gyfrifol am 63% o ganlyniadau cadarnhaol i achwynwyr.

Mae'r amrywiant ym mherfformiad y Bwrdd Iechyd wrth ddelio â chwynion yn parhau i fod yn destun pryder ac felly trefnodd fy swyddfa seminar arbennig ym mis Mehefin 2017 er mwyn rhannu arfer da wrth ddelio ag ac ymchwilio cwynion ynghylch gwasanaethau iechyd, a seminar arall ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ystod tymor y gwanwyn 2018. Yn yr ail ddigwyddiad o'r ddau, roeddwn yn falch iawn o weld rhagor o gynnydd yng nghyswllt gwasanaethau tu allan i oriau gyda'r prosiect Ymateb Cyflym i Salwch Acíwt i wella gwasanaeth y tu allan i oriau mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru, yn rhannol mewn ymateb i adroddiad thematig fy swyddfa ar y pwnc.

Fe gyhoeddais bedwar adroddiad diddordeb cyhoeddus yn ystod y flwyddyn; roedd pob un yn ymwneud ag iechyd, a dau yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru, dim ond drwy gael y gorau o'r bobl dalentog mae'n eu cyflogi y mae modd i fy swyddfa weithredu'n effeithiol. Yn ystod 2017/18 cafodd y broses datblygu ac adolygu perfformiad staff newydd ei datblygu ymhellach, drwy fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant, gan gynnwys rhagor o gymorth Adnoddau Dynol, anogaeth a hyfforddiant rheoli.

Rwyf yn arbennig o falch o'r gwaith a wnaed i ddatblygu ein gwerthoedd mewnol:

- Cyflawni – gwneud ein gorau glas
- Cydweithio – dangos parch a gweithio gyda'n gilydd er mwyn llwyddo
- Bod yn Gadarnhaol – dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud
- Cefnogi – bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi amrywiaeth
- Perchenogaeth – derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn
- Parodrwydd – agwedd gadarnhaol hyblyg ac awyddus

O ran ein *dylanwadu* a chydweithio â chyrrff eraill yng Nghymru a thu hwnt, roeddwn wrth fy modd yn cynnal ymweliadau â'r swyddfa gan Ombwdsmon Gwlad y Basg ac Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol Lloegr. Bûm mewn gweithdy ynglŷn ag ymchwiliadau ar fy liwt fy hun a gynhaliwyd gan Ombwdsmon yr Iseldiroedd yn yr Hag, ac fe fûm hefyd yn siarad mewn seminar ar hyrwyddo heddwch a dealltwriaeth rhwng Georgia ac Abkjazia yng Ngwlad y Basg – digwyddiad wedi'i gefnogi gan Gyngor Ewrop.



Bûm yn cwrdd â Phrif Weithredwyr, swyddogion monitro a swyddogion cwynion corfforaethol y GIG a llywodraeth leol. Ym mis Hydref, bûm yn ymweld â Phwyllgor Safonau Sir y Fflint a Chymdeithas y Meddygon ac yn eu hannerch. O ran ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid, roeddwn yn falch iawn bod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru stondin yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-coed ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ynys Môn, sef fy ardal enedigol.

Yn ystod y flwyddyn, bûm yn cwrdd ag Aelodau Cynulliad ledled y sbectrwm gwleidyddol ac yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar ôl cael fy ethol i Fwrdd Ewrop a Bwrdd Byd-eang Sefydliad Rhyngwladol yr Ombwdsmon, cefais yr anrhydedd o gael fy ethol yn Gadeirydd Cymdeithas yr Ombwdsmon ym mis Mai 2017.

Yn olaf, yn ystod 2017/18, gwelwyd cynnydd yng nghyswllt cam 1 y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig sy'n llywodraethu fy ngwaith. Roeddwn yn falch o weld bod Cyfarfod Cyflawn Cynulliad Cymru wedi pleidleisio 47/1 o blaid egwyddorion Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ac rwyf yn gobeithio y bydd modd gwneud rhagor o gynnydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y cyfuniad o gyd-destun cwynion heriol, profiad o weithgareddau gwella a'r posibilrwydd o bwerau deddfwriaethol ychwanegol yn llywio ein ffocws strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllun corfforaethol nesaf yn debygol o arwain at y canlynol:

1. Canolbwyntio adnoddau gwella ar gyrff sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran cwynion
2. Arbenigedd thematig o ymchwiliadau i sicrhau y gall y swyddfa barhau i ddelio â galw mawr o ran iechyd heb golli gallu ac effeithlonrwydd mewn meysydd eraill.
3. Parhau i ganolbwyntio ar arferion da a chydymffurfio

## Cyflwyniad i'r gosodiad amcangyfrifon hwn

Rwyf yn cyflwyno'r amcangyfrif cyllideb hwn yn unol â'r gofyniad ym mharagraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu'r adnoddau y bydd angen eu cael o Gronfa Gyfunol Cymru i gyflawni fy swyddogaethau statudol heblaw am fy nghyflog, costau Yswiriant Gwladol a phensiwn, sy'n gost uniongyrchol ar wahân ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw, felly, yn rhan o'r amcangyfrif hwn. Fodd bynnag, maent wedi'u cynnwys yn fy Nghyfrifon Blyneddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyfanswm costau rhedeg y swyddfa.

Dyma ail gyflwyniad o amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i'r Pumed Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am ystyried y gosodiad amcangyfrifon hwn. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa. Yn ogystal â hyn, bydd OGCC yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i drafod y Cyfrifon Blyneddol yn ôl y gofyn gan y Pwyllgor hwnnw. Mae'r wybodaeth sydd yn y papur hwn yn ymwneud yn benodol â'r materion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn sefydlu swyddfa'r Ombwdsmon yn 'gorfforaeth undyn'. Mae'r Ombwdsmon yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fecanwaith yr adroddiad blyneddol, ac fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ymddiried i'r Ombwdsmon i gyflawni ei swyddogaethau.

Y gwariant adnoddau net a geisir ar gyfer 2019/20 yw £4,555k, gyda gofyniad net am arian parod o £4,485k. Byddai'r ffigyrau hyn yn darparu cynydd adnoddau o 1.67%, sy'n is na'r newid arfaethedig o 5.8% yn y Bloc Cymru a byddai'n arwain at ostyngiad yn y gyfran o gyllideb Bloc Cymru a ddyrennir i wasanaethau'r Ombwdsmon.

Mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu dyraniadau cyflog staff a phwysau chwyddiant eraill, er na fydd angen y taliad diffyg y cynllun pensiwn llywodraeth leol flynyddol bellach.

Os caiff deddfwriaeth newydd yn llywodraethu gwaith yr Ombwdsmon ei gymeradwyo, bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon Cyllideb atodol.

Bydd amseriad Cydsyniad Brenhinol a chychwyn pwerau newydd yn pennu gwerth unrhyw osodiad Cyllideb Atodol. Ar gyfer cyflanrwydd, dangosir y costau sy'n gysylltiedig â phwerau newydd yn yr atodiad er gwybodaeth yn unig. Dangosir costau pwerau newydd fel y maent yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil. Maent am flwyddyn lawn ac at brisiau cyflog Ebrill 2017.

## Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y rôl gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar bob corff llywodraethol ac rwyf yn darparu fy ngwasanaeth yn rhad ac am ddim.

### Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, ar y cyfan, yn rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb dros eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Ymhlith y mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt y mae:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r gyrff y mae'n eu noddi; a
- gofal cymdeithasol sy'n cael ei drefnu neu ei ariannu'n breifat a gwasanaethau gofal lliniarol

Wrth ystyried cwynion, byddaf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd diffyg ar ran darparwr y gwasanaeth. Ystyrir hefyd a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisiau ei hun. Os caiff cwyn ei chadarnhau, yna byddaf yn argymhell camau priodol i wneud iawn am y diffyg. Y prif lwybr a ddilynir wrth argymhell iawn, os yw'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi cael cam) yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynddi pe na fyddai'r broblem wedi codi. Yn ogystal â hyn, os gwelaf dystiolaeth o wendid systemig wrth ymchwilio, yna gwneir argymhellion gyda'r bwriad o'i gwneud yn llai tebygol y gall pobl eraill brofi problem debyg yn y dyfodol.


Mae fi Nhîm Cynghori ar Gwynion hefyd yn darparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru, sef gwasanaeth annibynnol a diduedd dros y ffôn ac ar y we. Mae'n cynnig cyngor i aelodau o'r cyhoedd ynghylch sut i gwyno am wasanaeth cyhoeddus ac yn cyfeirio eu cwyn i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth y maent yn dymuno gwyno amdano, neu i'r ombwdsmon neu gorff annibynnol priodol sy'n delio â chwynion o'r fath.

### Cwynion Cod Ymddygiad

O dan y darpariaethau yn Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a hefyd o dan Orchymnion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parc cenedlaethol
- panelau heddlu a throseddu

## Y Gwasanaeth Cwynion 2017/18





## Llwyth achosion cwynion 2017/18

(yn cynnwys 345 achosion a ddygwyd ymlaen o 2016/17)

AR GAU

2,101

CWYNION

I LAWR 11% o 2016/17



1,854

Cwynion Cyrff  
Cyhoeddus

I LAWR 12%



247

Cwynion Cod  
Ymddygiad

0%

497 Ystyriaeth  
/ Ymchwiliad  
manwl

I LAWR 9%



30 Ymchwiliwyd

I LAWR 32%



405 Datrysiaid neu Cadarnhau

I LAWR 12%

### O'r rhain:

54% Yechyd

13% Ymdrin â chwynion

10% Gwasanaethau Cyhoeddus

5% Tai

5% Cynllunio

13 Tystiolaeth o doriad

I LAWR 41%

### O'r rhain:

47% Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

30% Cywirdeb

23% Datgelu & cofrestru diddordebau



## Llywodraethu Corfforaethol

Mae sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn yn golygu bod rhaid i mi, fel Ombwdsmon, fod yn gyfrifol ac atebol am y gweithgareddau a gyflawnir gan fy swyddfa.

Gan ystyried sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn, rwyf wedi sefydlu Panel Cyngori sy'n darparu her a chymorth i mi fel Ombwdsmon. Yn ogystal â hyn, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn is-bwyllgor i'r Panel sy'n darparu cymorth penodol i mi mewn perthynas â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae gwaith y ddau o'r rhain hyn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i drafod yn fwy manwl yn y Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blyneddol ar gyfer 2017-18, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.

Adnabyddir risgiau allweddol fel y canlynol :

Gorwel risg	Risg yn effeithio ar:	Rheoli risg a lliniaru:	Risgiau anodd cael gwared arnyn nhw:
Swyddogaethau craidd	Gallu rheoli llwyth achosion mawr a chymhleth yn effeithiol	Recriwtio staff i gynnal sefydliad staff llawn. Adolygu a gwella prosesau mewnol Rheoli perfformiad a llwyth achosion yn ofalus. Hyfforddiant a chymorth i staff.	O ystyried y twf yn nifer y cwynion am iechyd, achosion mwy cymhleth, a'r her gynyddol gan gyrff y gwneir cwyn amdanynt, caiff y risgiau anodd cael gwared arnyn nhw eu hystyried yn rhai <b>COCH (difrifol)</b>
Diogelu Data	Diogelwch data personol	Polisi diogelu gwybodaeth a hyfforddiant at gyfer staff. Cyfyngu mynediad i ddogfennau â chyfrinair ac amgryptio data. Negeseuon atgoffa a rhannu gwersi o ganlyniad i golli data.	Mae nifer y llythyrau, y negeseuon e-bost a'r dogfennau y mae fy swyddfa yn delio â nhw yn gwneud hon yn risg sylweddol. Gall gwallau dynol ddigwydd hyd yn oed pan fo mesurau rheoli cadarn ar waith. Caiff y risgiau anodd cael gwared arnyn nhw eu hystyried yn rhai <b>COCH (difrifol)</b>
Diogelu Data	Diogelwch y system – diogelwch ffisegol a seiberddiogelwch	Rheolaethau TG cadarn wedi'u dogfenu a'u harchwilio, rheoli gyda chyfrineiriau, trefniadau gwneud copi wrth gefn, cymorth TG allanol, profion hacio, diweddariadau meddalwedd rheolaidd.	Mae diogelwch TG yn flaenoriaeth uchel ac mae rheolaethau ar waith, ond mae'r risg o ymosodiadau seiberddiogelwch yn dal yn risg real i bawb ac i bob sefydliad. Caiff y risgiau anodd cael gwared arnyn nhw eu hystyried yn rhai <b>COCH (difrifol)</b>

Byddaf innau a’ m Tîm Rheoli yn parhau i weithio er mwyn rheoli a lleihau’r risgiau yn y meysydd allweddol hyn yn y flwyddyn sydd i ddod, a bydd y risgiau yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Perfformiad Ariannol

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol a rheolaeth fewnol wedi'u hadolygu'n annibynnol gan Deloitte, archwilwyr mewnol OGCC. Dywed ei Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2017/18: "Based on the work we have undertaken during the year we are able to conclude that the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) has a basically sound system of internal control, which should provide substantial assurance regarding the achievement of PSOW's objectives." Mae ei adroddiadau wedi dangos fframwaith boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol yn y sefydliad a gwnaeth argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen.

Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2017/18 fel ym mhob un o'r blynyddoedd blaenorol..


Mae OGCC wedi gweithio ar yr egwyddor y dylai gorbenion y swyddfa fod yn llai na 5% o gyfanswm y gwariant. Llwyddwyd i gyflawni hyn bob blwyddyn ers sefydlu'r swyddfa o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae'n egwyddor sydd wedi deillio o ymarfer da o fewn y sector cyhoeddus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dadansoddiad o wariant yn seiliedig ar nodau ac amcanion fy Nghynllun Strategol fel y'u disgrifiwyd yn y Cyfrifon Blynyddol lle nodwyd fod gorbenion yn 5% o gyfanswm y costau.

Nod 1: Darparu gwasanaeth **cwynion** o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac effeithiol.

Nod 2: Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i **wella'r** ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion a chael effaith ar wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a goleuo polisi cyhoeddus.

Nod 3: Parhau i **esblygu** a thyfu fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombwdsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.

Nod 4: Bod yn atebol am y gwasanaeth a'r **gefnoagaeth** a ddarperir gennym ac am yr arian cyhoeddus a warir gennym.





## Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd


Mae OGCC wedi adrodd i'r Pwyllgor Cyllid cyn hyn am yr ymdrech a wnaethpwyd i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yng nghanau cyntaf y broses trafod cwynion, ynghyd â symleiddio'r cam ymchwilio. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau'n hanfodol wrth ymdrin â'r nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion y mae fy swyddfa'n eu derbyn.

	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	Change
Ymholiadau	1,866	2,906	3,234	3,470	3,731	4,512	4861	+161%
Cwynion am Gyrrff Cyhoeddus	1,605	1,790	1,932	2,065	1,992	2,056	1983	+24%
Cwynion Cod Ymddygiad	412	291	226	231	276	236	270	-35%
<b>Cyfanswm y Llwyth Gwaith</b>	<b>3,883</b>	<b>4,987</b>	<b>5,392</b>	<b>5,766</b>	<b>5,999</b>	<b>6,804</b>	<b>7,114</b>	<b>+83%</b>
Gwariant (£000s) <sup>1</sup>	£3,389	£3,672	£3,488	£3,585	£3,677	£3,580	£3,599	-6%
<b>Cost Uned</b>	<b>£873</b>	<b>£736</b>	<b>£647</b>	<b>£622</b>	<b>£613</b>	<b>£526</b>	<b>£506</b>	<b>-42%</b>

Dros y cyfnod 2011/12 i 2017/18 bu cynnydd o 83% yn ein llwyth gwaith a bu gostyngiad o 42% yn y gost uned.

Llwyth gwaith Ymholiadau +160%  
 Cwynion:  
 Llwyth gwaith Cod Ymddygiad -35%  
 Llwyth gwaith Corff Cyhoeddus +24%

LLWYTH GWAITH O'I GYM HARU Â CHOST UNED



<sup>1</sup> Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant

## Gweledigaeth, Cenhadaeth, Nodau Strategol OGCC

Ar yr hyn o bryd, mae'r swyddfa yn gweithio tuag at y Weledigaeth, Cenhadaeth a'r Nodau Strategol a nodir yn y Cynllun Strategol Tair Blynedd 2016-17 i 2018-19. Wrth i ni agosáu at ddiwedd y cyfnod hwnnw, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynllun strategol newydd ar gyfer 2019-20 ymlaen, gyda mewnbwn ein seinfyrddau, cyrff cyhoeddus a Phanel Ymgynghorol yr OGCC, ac yna ymgynghoriad agored.

Y weledigaeth gyfredol yw:

Diwylliant gwasanaeth cyhoeddus sy'n rhoi gwerth ar gwynion ac sy'n dysgu yn eu sgil i wella darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Y Genhadaeth gyfredol yw:

Trwy ystyried cwynion, unioni pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfrannu at ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a safonau mewn bywyd cyhoeddus.

Y Nodau Strategol cyfredol yw:

1. Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol.
2. Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i wella'r ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion a chael effaith ar wella gwasanaethau cyhoeddus a goleuo polisi cyhoeddus.
3. Parhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombwdsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.
4. Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario.

## Gosodiad Cyllidebol

O ystyried gwasgu arian y sector gyhoeddus, mae'r gosodiad cyllidebol yn ceisio cynydd o 1.67%, ffigwr sy'n sylweddol is na'r cynnydd yn y Bloc Cymru. Dylid edrych ar hyn yng nghyd-destun pwysau chwyddiant cyflogau a phrisiau arwyddocaol, a thwf parhaus mewn llwyth achosion, yn benodol mewn cwynion mwy cymhleth, o 8% i 12% bob blwyddyn.

Cynyddodd ymholiadau a chwynion o 5% yn 2017-18. Bu cynnydd o 12% yn y chwe mis cyntaf 2018-19 (o gymharu â'r cyfnod cywerth yn 2017-18). Mae cwynion am fyrddau iechyd, meddygon teulu a deintyddion yn parhau ar lefelau sy'n debyg i rai yn 2017-18. Mae cwynion o'r fath, ar y cyfan, yn gymhleth ac yn gofyn amser, gan wneud hi'n anodd rheoli'r llwyth achos cyfan mor gyflym a dymunaf.

Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, mae graddau'r camweinyddu a'r lefel o anghyfiawnder personol yn ffactorau sy'n cael eu hystyried. O ganlyniad i bwysau ariannu a thyfiant parhaus mewn llwyth achosion, efallai y bydd angen 'codi'r bar' fel mai dim ond cwynion â lefelau mwy arwyddocaol o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth a lefelau mwy arwyddocaol o anghyfiawnder personol sy'n cael eu datblygu. Bydd y swyddfa yn ceisio rheoli'r llwyth achosion yn y ffordd hon er mwyn osgoi creu ôl-groniad cynyddol o achosion.

Mae'r gosodiad cyllidebol, felly, yn ceisio blaenoriaethu nawdd ar gyfer staff er mwyn cynorthwyo i reoli'r llwyth achos cynyddol hwn. Mae cyflogau staff wedi'u cysylltu â negodiadau cyflogau'r Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Yn unol â'r setliad 2018-19, rydym wedi cynnwys codiad cyflog o 2% ar gyfer 2019-20. Mae'r gyllideb arfaethedig yn adlewyrchu cost blwyddyn gyfan penodiadau i lenwi swyddi gwag yn ystod y flwyddyn gyfredol a symiau bach i gefnogi datblygiad staff mewn rolau ymchwilio allweddol.

Cydnabod y Pwyllgor Cyllid, yn eu hadroddiad yn Nhachwedd 2017, y gwaith a wnaethpwyd â chyrrff cyhoeddus er mwyn lleihau'r nifer o gwynion a'r cwynion wedi'i gadarnhau. Cafodd y gwaith hwn ei wneud gan nifer fechan o staff ymchwilio, lle'r oedd disgwyl iddynt dreulio 15% i 20% o'u hamser ar waith gwella. Mae'r dull hwn wedi sicrhau ychydig o gynnydd a gwelliannau, ond mae hi'n anodd, wrth gwrs, i un swyddog sy'n gweithio ar weithgareddau gwella am dros 20% o'u hamser gweithio, sicrhau newid sylweddol ar draws sefydliadau sy'n cyflogi miloedd o staff. Mae'r pwysau y nifer cynyddol o gwynion cymhleth ynghylch gofal iechyd, a'r cynnydd cysylltiedig yn llwyth achos y staff hyn, wedi'i gwneud hi'n anoddach i gynnal y lefel gynlluniedig o waith gwella.

Yng nghyd-destun pwysau dealladwy i gyfyngu cyllideb yr OGCC, ni fydd yn bosibl i ymestyn gwaith gwella i gyrff ychwanegol (fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Cyllid). Yn wir, bydd y gwaith gwella hwn yn cael ei raddio yn ôl, ond bydd yn ceisio canolbwyntio ar sefydliadau allweddol sy'n peri pryder. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid y llynedd, paratowyd cynllun Technoleg Gwybodaeth pum mlynedd. Caiff hyn ei adolygu i adlewyrchu gwariant gostyngol. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei reoli i leihau effaith, drwy ail-raglennu gwelliant a chyfnewid cyfarpar sydd wedi eu heneiddio, wrth geisio cynnal trefniadau diogelwch a gwydnwch cryf.

Dileuwyd y diffyg yn y gronfa bensiw yn llywodraeth lleol ar ddiwedd mis Mawrth 2017 a dychwelwyd £292k i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2017-18. O ganlyniad i'r symudiad at strategaeth ariannu pensiynau

risg isel, tybiwyd na fydd angen rhagor o daliadau diffyg. Prisiad actiwaraid y gronfa ar ddiwedd Mawrth 2018 oedd £1.5 miliwn.

Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wrthi'n ymgymryd â phrasiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Bydd canlyniadau'r prasiad yn pennu y cyfraniadau cyflogwr y bydd OGCC yn talu i'r cynllun o 1 Ebrill 2019. Mae'n bosibl y gallai cyfraniadau'r OGCC gynyddu o gyfartaledd o 21% i gyfartaledd o 28%. Gallai'r cynydd hwn arwain at yr OGCC yn talu cyfraniadau ychwanegol o oeddeutu £180k. Ni adlewyrchir y cynydd hwn yn y ffigyrau a geir o fewn y ddogfen cyllideb hon.

Byddwn yn adolygu'r goblygiadau o gynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr unwaith y bydd y cynydd yn hysbys. Os na ellir cymhwyso'r cynydd yn y gyllideb 2019-20, bydd cyllideb atodol yn cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20.

Rydym yn parhau i rentu ein swyddfeydd ym Mhencoed ar gost isel o £9 y droedfedd sgwâr, sy'n golygu gwerth sylweddol am arian o ran gofod swyddfa, ond mae'n agored i bwysau chwyddiant ar drethi busnes, yswiriant a chyfleustodau.

Cafodd contractau gwybodaeth allweddol a thechnoleg cyfathrebu eu hail-dendro yn ystod 2017-18 ac mae gwefan newydd nawr ar waith. Yn dilyn tendro am system rheoli achosion, mae gwaith wedi ei drefnu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019 i ddarparu system rheoli achosion gwell, sy'n cefnogi gweithio heb bapur ac sy'n cefnogi'r dadansoddiad gwerthfawr o ddata cwynion. Yn ddiweddar, adolygiwyd saerniaeth peiriant y TG a bydd hyn yn cael ei ddiweddarau i ddarparu sefydlogrwydd gwell ac er mwyn ddiogelu ein system ar gyfer y dyfodol. Yn ychwanegol, yn dilyn digwyddiad sy'n effeithio dilyniant busnes, bydd rhwydwaith mewnol yn mynd i'r afael â phryderon cyfredol ynghylch amser adfer.

Mae incwm o £17k yn cynrychioli'r costau sy'n ailgodi am reoli cyflogres Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â secondiadau staff.

Nid yw'r amcangyfrif hwn o'r gyllideb yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau wrth gefn i dalu am unrhyw eitemau o wariant annisgwyl, fel heriau cyfreithiol i benderfyniadau fy ngwaith achos.

## Costau sy'n Gysylltiedig â'r Pwerau Ychwanegol

Mae'r Atodiad yn dangos y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau ychwanegol sy'n deillio o'r ddeddf newydd, fel yr eglurwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio drafft.

Mae'r costau yn yr Atodiad ar gyfer blwyddyn lawn ac yn adlewyrchu'r rhai yn y Memorandwm Esboniadol. Bydd Cyllideb Atodol yn cael ei baratoi a bydd yn adlewyrchu datblygiad â'r ddeddfwriaeth, ynghyd ag amseriad y Cydsyniad Brenhinol a'r Gorchymyn/Gorchymynion Cychwyn.

## Atodiad

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Amcangyfrif ar gyfer 2019-20

	Gwirioneddol 2017/18	Cyllideb 2018/19	Amcangyfrif 2019/20	Costau Pwerau Newydd*	Amcangyfrif Pwerau Newydd 2019/20*
	£000s	£000s	£000s	£000s	£000s
<b>A Cyfalaf</b>	<b>20</b>	<b>147</b>	<b>22</b>	<b>0</b>	<b>22</b>
<b>B Refeniw Cyllidol</b>					
Costau Staff	2,898	3,224	3,385	265	3,650
Hyfforddiant a recriwtio	55	51	55	7	62
Cyngori a chyfreithiol	319	281	260	20	280
Cyfathrebu	45	45	45	0	45
Teithio a chynhaliaeth	36	32	35	9	44
Costau Swyddfa	128	138	120	21	141
TG	239	156	180	18	198
Rhagosodiadau	440	378	380	0	380
Arall	18	0	0	0	0
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>4,178</b>	<b>4,427</b>	<b>4,460</b>	<b>340</b>	<b>4,800</b>
Incwm	-31	-62	-17	0	-17
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>4,147</b>	<b>4,365</b>	<b>4,443</b>	<b>340</b>	<b>4,783</b>
<b>C DEL nad yw'n Arian</b>					
Dibrisiant	43	70	70	0	70
<b>DEL Refeniw (B+C)</b>	<b>4,190</b>	<b>4,435</b>	<b>4,513</b>	<b>340</b>	<b>4,853</b>
<b>Cyfanswm DEL (A+B+C)</b>	<b>4,210</b>	<b>4,460</b>	<b>4,535</b>	<b>340</b>	<b>4,875</b>
<b>D Gwariant a Reolir yn Flynyddol</b>					
Symudiad darpariaethau	0	20	20	0	20
<b>Cyfanswm AME</b>	<b>0</b>	<b>20</b>	<b>20</b>	<b>0</b>	<b>20</b>
<b>E Cyfanswm Gwariant a Reolir</b>	<b>4,210</b>	<b>4,480</b>	<b>4,555</b>	<b>340</b>	<b>4,895</b>
<b>Adnoddau Gofynnol</b>	<b>4,210</b>	<b>4,480</b>	<b>4,555</b>	<b>340</b>	<b>4,895</b>
Dibrisiant	-43	-70	-70	0	-70
Newid yn nharpariaethau	0	-20	-20	0	-20
Symudiadau eraill nad ydynt yn arian	11	20	20	0	20
<b>Cyfanswm gofyniad arian</b>	<b>4,178</b>	<b>4,410</b>	<b>4,485</b>	<b>340</b>	<b>4,825</b>

\* Mae'r costau amcangyfrifedig pwerau newydd yn adlewyrchu'r rhai yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r ffigyrau at brisiau Ebrill 2017. Os cymeradwyir pwerau newydd, bydd gwerth unrhyw osodiad Cyllideb Atodol yn adlewyrchu'r cyflogau a phrisiau cyfredol ac amseriad cychwyn y pwerau newydd.